

CYFFWRDD, SYMUD, AROGLI, BLASU, CLYWED A GWELD

Mae eich babi'n dysgu'n gyflym iawn. Mae angen eich help a'ch arweiniad arno.

Syniad Chwarae

Rhyngweithio â Wyneb



Sut mae'n helpu fy mabi?

Helpu fy mabi i ddysgu drwy rhyngweithio

- Nid oes angen teganau drud. Eich wyneb chi yw'r tegan gorau i'ch babi!
- Mae eich babi wrth ei fodd yn edrych ar eich wyneb ac yn ei archwilio a'i gyffwrdd.
- Mae eich babi wrth ei fodd yn clywed eich llais ac mae'n helpu eich babi i ddatblygu sgiliau iaith.
- Cymerwch saib wrth siarad â'ch babi ac arhoswch iddo ymateb a chymryd tro ei hun. Dyma ddechrau sgwrs

Pethau diddorol i edrych arnynt



Helpu fy mabi i ddysgu drwy edrych

- Mae babanod ifanc yn hoffi edrych ar bethau diddorol a phatrymau cyferbyniol.
- Mae'n helpu i ddatblygu sylw gweledol ac i ddysgu sgiliau.
- Dylai delweddau fod tua 30cm oddi wrth wyneb eich babi
- Noder: gwnewch yn siwr nad yw'r delweddau yn rhy agos at wyneb eich babi a defnyddiwch nhw am ychydig funudau ar y tro pan fydd eich babi'n edrych ac yn cymryd diddordeb

Mat Chwarae



Helpu fy mabi i ddysgu drwy archwilio

- Mae'n annog estyn a gafael
- Pan mae eich babi'n gafael mewn tegan, mae'n tynnu ei sylw at ei ddwylo
- Mae'n ei ysgogi i ddefnyddio ei ddwylo i ddod â gwrthrych tuag at ei geg
- Mae teganau sy'n gwneud sŵn ysgafn megis ratlau yn helpu eich babi i ddechrau datblygu dealltwriaeth o achos ac effaith


Ratlau a Theganau Lleddfu Poen Dannedd



Helpu fy mabi i ddysgu drwy ddefnyddio ei ddwylo

- Mae'n annog estyn a gafael
- Pan mae eich babi yn gafael mewn tegan, mae'n tynnu ei sylw at ei ddwylo
- Mae'n ei ysgogi i ddefnyddio ei ddwylo i ddod â gwrthrych tuag at ei geg
- Mae teganau sy'n gwneud sŵn ysgafn megis ratlau yn helpu eich babi i ddechrau datblygu dealltwriaeth o achos ac effaith

Amser Bol pan yn Effro



Helpu fy mabi i baratoi i gropian

- Mae'n helpu i ddod yn gyfforddus gyda gorwedd ar y bol
- Mae'n rhoi cyfle i ddatblygu rheolaeth o'r pen a chryfder braich

Noder: Rhowch gynnig ar hyn yn aml ac am gyfnodau byr drwy gydol y dydd o fewn terfyn goddefiant eich babi.

Wydddech chi? Mae babanod yn dysgu yng nghyd-destun cydberthnasau sef siarad, chwarae a bydd cyffwrdd cariadus yn datblygu sgiliau gwybyddol, iaith ac echddygol eich babi.

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

© 2022 Ei SMART Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

CEREBRAL PALSY CYMRU



Cyd-chwarae mewn amrywiaeth o safleoedd

Gafaeliad Braich



Rhowch ben eich babi yn eich penelin, gan afael yn ei gorff gyda'ch dwy law

Gafaeliad Teigr mewn coeden



Rhoi eich babi i orwedd ar draws eich braich gyda'ch llaw rhwng ei goesau, rhowch eich llaw arall ar gefn eich babi i'w

Gafaeliad Ysgwydd



Rhoi pen eich babi i orffwys ar eich ysgwydd, gan gynnal ei ben a'i wddf â'ch llaw arall

Gafaeliad Penglin



Rhoi pen eich babi wrth eich pengliniau, a'i gynnal â dwy law

Cofiwch bwysigrwydd ...

Wrth godi eich babi



Sicrhewch fod corff eich babi yn cyffwrdd â' arwyneb cyn ei ben. Fel arall, gall eich babi ddychryn.

Digonedd o amser croen wrth groen



Rhowch eich babi i orffwys ar eich brest noeth, a rhowch flanced o'ch cwmbras. Mae'n rheoleiddio curiad y galon, anadlu a thymheredd.

Mae'n hybu rhyngweithio rhyngoch chi a'ch babi



Datblygiad cymdeithasol ac emosïynol



Mae babanod yr oed yma fel arfer yn arddangos hunanreolaeth a diddordeb yn y byd drwy wenu ar bobl a dod â'u dwylo at y geg er mwyn eu cysuro

Hybu ymennydd eich babi...

Amser wyneb yn wyneb rheolaidd



Mae'n helpu i feithrin perthynas gariadus ac agos. Defnyddiwch yr amser hwn i siarad a chanu i'ch babi

Gweithgareddau Siarad



Siaradwch am beth rydych chi'n ei wneud gyda'ch babi wrth newid cewyn, bwydo ac ati Ailadroddwch y synau mae eich babi yn ei wneud gan siarad am yn ail.

Dawnsio gyda'ch babi



Siglwlch eich babi yn ysgafn yn eich breichiau, gan roi saib iddynt ddod i arfer â'r symudiadau

Wydddech chi? Mae babanod yn hoffi cael sylw ac yn ffynnu pan gânt ymateb i'w hymdrechion i gyfathrebu megis edrych a gwneud synau. Cofiwch nad oes angen teganau drud: eich wyneb a'ch llais, mynd am dro yn y parc gwyllo'r dail yn symud; bydd y rhain oll yn ddiddorol i'ch babi

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnal syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

© 2022 Ei SMART Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

